# Wythnos Genedlaethol Cyflogaeth Myfyrwyr



## Hydref 2008

*Mae 87%* o fyfyrwyr nawr yn disgwyl gweithio'n rhan-amser neu dros dro neu yn ystod eu cyfnodau gwyliau, er mwyn cynnal eu hastudiaethau, lleihau dyled myfyrwyr, a datblygu eu sgiliau gwaith a'u haddysg eu hunain.*

*FutureTrack 2005

Mae Wythnos Genedlaethol Cyflogaeth Myfyrwyr (NSEW) yn ddigwyddiad blynyddol a drefnir gan Gymdeithas Genedlaethol Gwasanaethau Cyflogaeth i Fyfyrwyr (NASES) pryd y bydd Gwasanaethau Cyflogaeth Myfyrwyr ledled y Deyrnas Gyfunol yn cynnal digwyddiadau i ddod â chyflogwyr a myfyrwyr at ei gilydd.

Mae'r Siopau Swyddi Unigol yn cydlynu digwyddiadau sy'n ymwneud ag addasrwydd i waith yn lleol a rhanbarthol fel gweithdai i fyfyrwyr, dyddiau recriwtio i gyflogwyr ar y campws, ffeiriau swyddi i fyfyrwyr a chystadlaethau.

**Manylion Cysylltu:**

NASES, Prifysgol Lerpwl
**Gwefan:** www.nases.org.uk
**E-bost:** nases@liv.ac.uk


NASES

MORETHANWORK INTERNATIONALS
MORE SKILLS - MORE RIGHTS - MORE OPPORTUNITIES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Wythnos **Genedlaethol Cyflogaeth** Myfyrwyr

# Pum Ffaith

**1. Mae gan weithwyr rhan-amser yr un hawliau cyflogaeth statudol â gweithwyr amser llawn.**

Mae gan weithwyr rhan-amser yr un hawliau â gweithwyr amser llawn cyffelyb. Dan y Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Rhwystro Triniaeth Lai Ffafriol), mae gan weithwyr rhan-amser hawl statudol i gael eu trin fel gweithwyr cyffelyb amser llawn, hynny yw, gweithwyr sydd â'r un math o gontract gyda'r un cyflogwr. Mae'r hawl hwn gennych o ddiwrnod cyntaf eich cyflogaeth.

**2. Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.**

*O'r 1af o Hydref 2008, cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw:*

| | |
|---|---|
| **I weithwyr 22 oed a h_n** | **£5.73 yr awr** |
| **I weithwyr 18-21 oed** | **£4.77 yr awr** |
| **I weithwyr 16 a 17 oed** | **£3.53 yr awr** |

**3. Rheoliadau Amserau Gwaith.**

- *Hawl i egwyl os yw'r diwrnod yn hirach na chwe awr*
- *Cyfyngiad o wythnos waith o 48 awr ar gyfartaledd (gallwch gytuno gyda'ch cyflogwr i weithio'n hirach ond dylai'r cytundeb hwn fod yn ysgrifenedig ac wedi ei arwyddo gennych chi.)*
- *Mae gan bob gweithiwr hawl i leiafswm o bedair wythnos o wyliau gyda chyflog y flwyddyn. Dylai'r tâl a dderbyniwch fod yr un faint ag a gewch am wythnos waith arferol*

**4. Nid yw myfyrwyr yn cael eu heithrio o dreth.**

Mae Myfyrwyr yn talu treth ac yswiriant gwladol fel y mae gweithwyr eraill yn ei wneud ond dydych chi ddim yn talu treth ar eich enillion i gyd. Y lwfans personol statudol i berson sengl yn y flwyddyn 2007 – 2008 yw £5225. Os ydych yn ennill llai na hynny, ni fydd angen i chi dalu treth incwm. Os mai DIM OND yn ystod y gwyliau yr ydych chi'n bwriadu gweithio a'ch bod chi'n gwybod na fydd eich incwm yn fwy na'r lwfans personol gallwch ofyn am arwyddo P38 i atal cymryd y dreth.

**5. Myfyrwyr Rhyngwladol.**

Does dim angen mwyach i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr rhyngwladol gael trwydded i weithio yn y Deyrnas Gyfunol tra'u bod wedi cofrestru fel myfyrwyr, er bod yna gyfyngiadau ar faint a'r math o waith y gallant ei wneud.

- Gall myfyrwyr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd weithio yn y DG heb gyfyngiadau
- Dylai myfyrwyr o'r gwladwriaethau sydd newydd eu derbyn gofrestru i weithio yn y DG
- Dylai myfyrwyr o wledydd eraill edrych ar stamp eu pasbort i weld a allant weithio gyda chyfyngiadau penodol

***Am wybodaeth lawn am y meysydd hyn i gyd a llawer mwy ewch i www.morethanwork.net***

NASES

MORETHANWORK INTERNATIONALS
MORE SKILLS - MORE RIGHTS - MORE OPPORTUNITIES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government